



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llanfyllin  
Canolfan Ieuencid a Chymunedol  
Llanfyllin  
Powys  
SY22 5BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llanfyllin yn y Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol tu ôl llyfrgell y dref. Tref fach wledig yw Llanfyllin rhyw 10 milltir i'r gogledd orllewin o'r Trallwng. Mae'r cylch yn cynnig darpariaeth gyfrwng Cymraeg ac ar hyn o bryd mae 12 o blant ar y gofrestr, saith yn 3 oed a 5 yn cael eu hariannu. Daw'r holl blant o'r dref a'r gymuned wledig gyfagos. Daw'r rhan fwyaf o blant o gartrefi Saesneg eu hiaith, er mewn nifer o achosion mae un rhiant yn medru'r Gymraeg ac mewn achosion eraill mae'r rhieni yn ddysgwyr o'r iaith Gymraeg.

Mae'r Cylch yn adrodd nad oes un plentyn yn dod o gartrefi sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac nid oes unrhyw blentyn o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r Cylch yn defnyddio ystafell fawr, dymunol a golau sydd â mynediad uniongyrchol i ardal chwarae fawr tu allan. Y mynediad i'r ganolfan gymunedol yw'r ffordd mewn ac mae'r cyntedd mawr yn lle aros dymunol i'r rhieni a'r gofawyr. Mae'r drws i'r ystafell sy'n cael ei defnyddio gan y Cylch yn cael ei gadw dan glo fel nad oes neb yn medru gadael na dod i mewn heb rybudd. Mae hysbysfwrdd yn y cyntedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofawyr. Tua diwedd pob sesiwn mae'r Cylch yn darparu arddangosfa ar gyfrifiadur yn y cyntedd yn danogs yr hyn mae'r plant wedi'i wneud yn y sesiwn flaenorol. Mae'r cyfleuster hyn yn cael ei werthfawrogi gan rieni.

Mae gan y prif ystafell arddangosfa ddeniadol o waith plant ac mae'r ardaloedd yn adlewyrchu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Yn anffodus, mae'r ystafell yn un amlbwrpas sy'n cael ei llogi am bris uchel gan y Cylch, sy'n golygu bod rhaid clirio'r offer i ffwrdd ar ddiwedd pob sesiwn. Mae gan yr ardal tu allan arwyneb chwarae meddal sy'n ddigon mawr i alluogi'r plant i ddefnyddio teganau symudol a chwarae gemau pêl.

Daw'r plant i'r Cylch o 2½ oed a symud i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y tymor maen nhw'n bedair oed. Nid oes unrhyw blentyn ar hyn o bryd ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae plant ag anghenion o'r fath wedi mynychu yn y gorffennol.

Cafodd y Cylch ei arolygu'n flaenorol gan Estyn ym Mawrth 2006 gan fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi arolygu'r Cylch yn 2010. Nid oedd unrhyw argymhellion. Mae'r Cylch wedi'i gofrestru i dderbyn 26 o blant.

Ers yr arolygiadau blaenorol mae llawer o newidiadau wedi bod o ran personél ac mae'r Pwyllgor Rheoli wedi gweithio'n galed i gynnal y cyfleuster yn y dref. Mae'r arweinydd presennol a'i chynorthwy-ydd wedi bod yn eu swyddi ers diwedd Mai 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

#### Nodweddion da

- Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig.
- Caiff y plant eu trochi yn yr iaith Gymraeg gan ddatblygu geirfa dda yn y Gymraeg.
- Mae gan yr holl blant agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu gan ymddwyn yn dda.
- Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y Cylch, yn ddiogel ac yn derbyn gofal dda.
- Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog plant i ffurfio perthynas dda ac i ddod yn ddysgwyr hyderus.
- Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bryd i ymyrryd a phryd i adael plant i weithio'n annibynnol.
- Caiff y plant eu hasesu'n rheolaidd.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant yn dda.
- Mae perthynas dda gyda rhieni a gofalwyr.

#### Nodweddion boddhaol

- Mae'r Cyllunio yn darparu gweithgareddau sy'n cymell y plant ond nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant.
- Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r asesu wrth gynllunio er mwyn sicrhau bod tasgau a gweithgareddau yn y dyfodol yn cyfateb yn dda i anghenion a gallu'r plant.

### Rhagolygon gwella

#### Nodweddion da

- Er bod yr arweinydd a'r cynorthwy-ydd newydd eu hapwyntio, mae synnwyr o bwrpas sy'n canolbwyntio'n dda ar hyrwyddo a chynnal gwelliant yn amlwg.
- Mae'r arweinydd a'r cynorthwy-ydd yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau.
- Mae'r staff yn deall eu rolau yn llawn, yn derbyn eu cyfrifoldebau ac wedi cydnabod diwallu anghenion a disgwyliadau'r plant fel eu prif nod.
- Mae'r cwricwlwm, dros y mis diwethaf, wedi ei ledaenu i gynnwys cyfleodd

dysgu uwch ar gyfer y plant.

- Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth dda ac effeithiol a dros y blynyddoedd wedi bod yn weithgar iawn wrth gefnogi'r Cylch.
- Mae'r staff yn mwynhau gweithio gyda'r plant.
- Mae'r staff yn nodi parodrwydd i ymestyn eu datblygiad proffesiynol.

Nodweddion boddhaol

- Er bod hunanarfanu wedi'i wneud gan nodi cryfderau a meysydd posibl i'w gwella, nid yw'n wir berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol.

## Argymhellion

Rhaid i'r Cylch sicrhau:

- (i) fod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant;
- (ii) bod deilliannau'r asesu yn cael eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol fel bod tasgau yn cyfateb yn dda i anghenion a diddordebau'r plant.
- (iii) bod hunanarfarnu yn cael ei ddefnyddio i nodi, blaenoriaethu a gweithredu meysydd i'w gwella.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Wrth iddynt gyrraedd y Cylch, maen nhw'n cymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae'r plant hyn yn dechrau gwneud dewisiadau, gan ddewis eu hoff weithgareddau a chanolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig o amser.

Mae'r plant yn mwynhau amser stori gan ddangos eu mwynhad drwy eu parodrwydd i gymryd rhan. Maen nhw'n gwranddo'n astud ac yn dangos eu medrau iaith a chyfathrebu sy'n datblygu drwy ateb cwestiynau a thrwy adrodd eu profiadau.

Mae'r plant yn deall cwestiynau ac ymadroddion sylfaenol yn y Gymraeg maen nhw'n clywed gan y staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac mae llawer yn ceisio cyfleoedd i edrych ar lyfrau yn y gornel ddarllen. Mae'r plant hyn a mwy galluog yn dal llyfrau'n briodol a dilyn y stori. Mae'r holl blant yn arbrofi gan greu marciau, a'r plant fwy galluog yn dechrau ysgrifennu dros eu henwau ac yn deall pwrpas ysgrifennu.

Mae'r holl blant yn cyfateb patrymau i raddau amrywiol ac mae nifer yn cyfrif yn gywir i 10 yn y Gymraeg. Mae'r plant yn gyfarwydd â thechnoleg gan ddefnyddio'u cyfrifiadur i chwarae gemau syml a defnyddio'r lygoden gyfrifiadurol yn gymwys ac yn hyderus.

Nodwedd nodedig a da iawn o'r Cylch yw'r modd maen nhw'n cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg. Mae dealltwriaeth y plant o eiriau ac ymadroddion syml sylfaenol yn datblygu'n dda. Maen nhw'n deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ond mae llawer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn dod yn ran naturiol o'u hiaith. Maen nhw'n mwynhau caneuon actol Cymreig a defnyddio offerynnau taro yn enwedig. Maen nhw'n hapus i awgrymu eu hoff ganeuon actol e.e. "Mi welais Jac y Do".

#### Lles: Da

Mae gan yr holl blant agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a diddordeb yn y tasgau a'r gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae'r plant hyn a mwy galluog yn medru cymryd rhan mewn tasgau am gyfnodau estynedig o amser gan weithio'n annibynnol neu yn gyd-weithredol.

Mae ymddygiad plant yn dda ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ystyriol ac yn ymwneud yn dda â'i gilydd.

Mae gan y plant agwedd dda at gadw'n iach gan gydnabod bod ffrwythau a llyisau yn rhan o ddeiet iach. Yn ogystal, mae'r plant yn cymryd rhan frwdrydgyd mewn

gweithgareddau corfforol gan ddangos cyd-symud llaw-llygad da. Mae'r holl blant yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o gandriniaeth.

Yn eu gweithgareddau, mae'r plant yn cyd-weithio, fel yn ystod chwarae rôl ac yn mwynhau bywyd yn y Cylch.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd gan nodi gweithgareddau sy'n diddori a chymell yr holl blant yn llwyddiannus. Er bod y cynllunio'n seiliedig ar y chwe maes dysgu a nodir yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes digon o hyblygrwydd i gymryd ystyriaeth o anghenion a diddordebau unigol y plant. Rhoddir pwyslais priodol ar fedrau llythrennedd gyda sylw arbennig i ddatblygu llafaredd y plant yn y Gymraeg. Mae'r Cylch yn ceisio cyfleoedd da i ddatblygu medrau cyfathrebu'r plant. Caiff medrau rhifedd y plant eu datblygu ar draws y cwrciwlwm a chaiff y plant gyfleoedd i ddefnyddio'u cyfrifiadur.

Er bod y cwrciwlwm wedi'i gynllunio o gwmpas deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, nid oes digon o sylw yn cael ei rhoi ar adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog plant i ffurfio perthynas, i ddatblygu goddefgarwch ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus. Caiff cyfleoedd da eu cynllunio i ddatblygu medrau rhifedd, creadigol a chorfforol y plant.

Rhoddir pwyslais priodol ar wybodaeth a dealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau diwylliant Cymru, gan gynnwys dathliadau Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae ail-gylchu ar gyfer papur a phlastic wedi'i gyflwyno yn ddiweddar.

### **Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfredol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddau aelod o staff yn dangos yn glir eu bod yn mwynhau gweithio gyda phlant ifanc a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ymatebion cadarnhaol y plant i'r staff. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, pa beth bynnag yw eu cefndir neu allu.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithlon iawn gan ategu ei gilydd. Maen nhw'n diwallu anghenion plant yn hyblyg ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u cyfeirio neu eu harwain gan oedolion. Yn ogystal, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau tu fewn a thu allan. Nodwedd da a nodedig yw syniad y staff o bryd mae'r plant yn barod ar gyfer tasgau a gweithgareddau newydd – maen nhw'n gwybod sut i ymyrryd a phryd i adael plant i weithio'n annibynnol. Caiff ymddygiad y plant ei reoli'n effeithiol gan ddefnyddio strategaethau



ymddygiad positif yn effeithiol dda. Gwneir defnydd da o ganmoliaeth i annog plant a'u cymell.

Caiff y plant eu trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a chaiff hyn ei hyrwyddo gan fod y staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r staff yn defnyddio pob cyfle i ddatblygu gallu'r plant yn yr iaith ac i herio'r plant. Mae'r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd, ac mae'r ddau aelod staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt wneud.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaed defnydd effeithiol o fyfyrwr ar leoliad.

Caiff plant eu hasesu'n reolaidd gan nodi arsylwadau. Mae'r asesu wedi'i selio ar y chwe maes dysgu o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chofnodir y canlyniadau yn dymhorol. Mae hyn yn golygu y gellir mesur ac adrodd ar gynnydd plant. Er bod y staff yn sensitif i gynnydd plant nid yw canlyniadau'r asesu yn cael eu defnyddio'n ddigonol i nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant, yn enwedig datblygiad medrau. Yn ogystal, byddai hwn yn galluogi tasgau i gyfateb â'u gallu a'u diddordebau. Hefyd, byddai'n wybodaeth ddefnyddiol i rieni er mwyn iddynt ddod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i helpu'u plant i wella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn helpu meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae gweithgareddau sy'n cynnwys rhannu a chyd-weithio yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir, i gymryd cyfrifoldeb a dangos annibynnaieth. Mae ymweliadau â'r gymuned yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd yn y plant, a gwerthfawrogiad o'r byd maen nhw'n byw ynddo. Daw plant i werthfawrogi'r rôl sydd gan bobl eraill a'r rhai sy'n eu helpu yn eu gymuned.

Mae staff y Cylch yn dangos agwedd ofalgar ac amddiffynnol a synnwyr o fwynhad wrth weithio gyda'r plant. Mae'r plant yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, bod eu barn yn cael eu parchu a bod oedolion yno i'w cefnogi. Golyga hyn bod y plant yn dod at oedolion yn hyderus ar faterion sy'n eu poeni. Yn ogystal, mae'r Cylch yn elwa o ymweliadau gan Ymwelydd Iechyd yn ôl yr angen. Mae hyn yn rhoi cysylltiad effeithiol gydag asiantaethau arbenigol eraill.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan Fudiad Ysgolion Meithrin yn sicrhau bod trefniadau diogelwch ar waith. Arweinydd y Cylch yw'r person a enwir â chyfrifoldeb am ddelio â diogelwch plant ac mae hi a'i chynorthwy-ydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi yn ddiweddar. Mae'r ddwy yn ymwybodol o'r gweithdrefnau angenrheidiol pe bai achos yn codi. Mae'r ddwy hefyd yn ymwybodol o'r angen i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar. Drwyddi draw, mae'r gweithdrefnau'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Er nad oes unrhyw blentyn yn y Cylch ar hyn o bryd sydd wedi'i nodi ag anghenion addysgol ychwanegol, mae plant o'r fath, yn y gorffennol, wedi cael cefnogaeth briodol. Mae achosion o'r fath wedi cynnwys gwasanaethau arbenigol, ymgynghoriad llawn â rhieni a chefnogaeth dysgu. Mae'r Cylch yn adrodd ei fod yn medru cynnig cefnogaeth o ansawdd ar gyfer plant o'r fath yn ôl y gofyn.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r Cylch yn darparu ethos gynnes, gyfeillgar a chefnogol i'r plant sy'n seiliedig ar fynediad cyfartal i bob gweithgaredd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agwedd y plant a'u hagwedd oddefgar.

Caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi fel unigolion ac maen nhw'n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Caiff cefndir a hynodweddau'r plant eu parchu a pha beth bynnag yw eu cefndir maen nhw'n cael cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Cylch.

Mae gan staff gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae gan y Cylch adnoddau digonol ac mae gan y plant fynediad hawdd at adnoddau. Mae'r staff yn sicrhau amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer pob sesiwn. Caiff defnydd da ei wneud o'r ystafelloedd ac o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi dysgu'r plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Dim ond ers mis mae'r arweinydd a'r cynorthwy-ydd presennol wedi bod yn eu swyddi, felly megis dechrau maen nhw i sefydlu arddull arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae synnwyr o bwrpas yn amlwg sy'n canolbwyntio'n dda ar hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd a'r cynorthwy-ydd yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion, ethos bositif a disgwyliadau uchel. Maen nhw'n deall eu rolau'n llawn, yn cymryd rhan weithredol yn y cynllunio ac yn cyd-weithio'n dda yng ngweithgareddau'r plant o ddydd i ddydd. Maen nhw'n cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau ac wedi nodi mai canolbwyntio ar anghenion plant a'u disgwyliadau yw eu prif rôl. Er nad oes rhaglen o sefydlu a gwerthuso wedi ei rhoi ar waith, mae'r staff yn sensitif o'r angen i wneud hyn fel mater o flaenoriaeth.

Mae sawl enghraifft o welliant wedi digwydd yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r cwricwlwm i gynnwys ystod ehangach o weithgareddau i'r plant. Mae'r arddangosfeydd o waith creadigol y plant yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac mae'r plant yn dangos eu mwynhad wrth ganu'r amrywiaeth eang o rigymau a chaneuon actol yn y Gymraeg. Mae amser byrbryd yn canolbwyntio'n dda ar fwyta'n iach ac yn amser da yn gymdeithasol i'r plant. Mae rhieni yn adrodd ar y mwynhad cynyddol diweddar a'r ffordd mae'r plant yn cymryd rhan a sut mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant.

Nodwedd da a nodedig o'r Cylch yw'r gefnogaeth effeithiol gan y pwyllgor rheoli. Mae'r pwyllgor rheoli wedi bod yn weithgar iawn wrth gynnal Cylch yn y dref ac yn enwedig cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i staffio gyda siaradwyr Cymraeg rhugl. Maen nhw wedi llwyddo i wneud hyn. Mae aelodau o'r pwyllgor yn deall eu rolau yn llawn ac yn cael gwybodaeth dda am berfformiad y lleoliad. Maen nhw wedi gwneud penderfyniadau effeithiol ac yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn.

Mae'r Cylch yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel cyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn gwbl ymrwymedig i fenter Bwyta'n Iach.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Roedd y Cylch wedi gwneud ymarfer hunanarfarnu yn flaenorol ac wedi nodi'r cryfderau a'r meysydd posibl i'w gwella. Mae'r staff cyfredol yn defnyddio'r hunanarfarnu oedd wedi'i baratoi'n flaenorol sydd yn berthnasol yn gyffredinol ond sydd angen ei addasu er mwyn ystyried anghenion a chynlluniau cyfredol.

Roedd ymgynghori gyda rhieni a gofalmwyr sy'n dod â'u plant i'r Cylch yn nodi graddfa uchel o foddhad â'r staff newydd. Roedd rhieni a gofalmwyr, heb ofyn iddynt, yn siarad am ymrwymiad y staff cyfredol i roi'r ddarpariaeth orau posibl i'r plant. Roedd yr holl rieni a gofalmwyr yn sôn am agwedd gynnes a chroesawgar y staff a pha mor gyflym mae'r plant newydd yn ymsefydlu. Roedd y plant yn edrych ymlaen i'w hamser yn y Cylch. Wrth drafod, roedd hi'n amlwg bod y staff, ar ôl amser byr, yn trafod yn barod ac wedi dechrau gwneud gwelliannau yn y ddarpariaeth.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn datblygiad proffesiynol fel cyrsiau ar weithdrefnau diogelu plant. Mae un aelod o staff wedi cwblhau ei Lefel 2 mewn gofal plant ac yn barod i fynd ymlaen i gyflawni Lefel 3.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r Cylch yn gweithio'n dda iawn gyda rhieni sy'n gwerthfawrogi cyfraniad y Cylch. Mae'r Cylch yn teimlo bod staff y Cylch yn hawdd i fynd atynt ac yn groesawgar tuag at y plant. Roedd arsylwadau yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau hyn yn y modd roedd y staff yn croesawu'r plant ac yn sicrhau eu bod yn ymsefydlu'n gyflym. Ymhob bron pob achos, roedd y plant yn awyddus i ddod i'r Cylch gan gymryd rhan gyda'i ffrindiau yn gyflym mewn gweithgareddau diddorol. Mae rhieni hefyd yn gwerthfawrogi gweld y gyfres o sleidiau ar sgrîn yn y neuadd o'u plant yn gweithio yn ystod eu sesiwn yn y Cylch. Dyma ddarpariaeth werthfawr. Mae cyfathrebu effeithiol gyda rhieni yn bodoli ac mae teimlad o ymddiriedaeth wedi ei sefydlu.

Mae cysylltiadau yn bodoli gyda'r ysgol gynradd lle mae'r plant yn trosglwyddo iddi. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgol cyn trosglwyddo ac mae cynlluniau ar gyfer cysylltiadau pellach.

Mae'r Cylch yn cydweithio gydag athrawes ymgynghorol yr ALL a staff Mudiad Ysgolion Meithrin i wella'r ddarpariaeth.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn cyd-weithio'n dda iawn, yn derbyn eu rolau ac yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion y plant. Caiff adnoddau eu defnyddio'n dda i gymhell y plant i ddysgu. Mae'r ardal tu allan ar bwys y prif ystafell ac yn cael ei defnyddio'n dda. Caiff yr ardal ei defnyddio'n briodol i ymestyn profiadau'r plant ac i ddatblygu eu medrau ar draws pob maes dysgu.

Mae'r Pwyllgor Rheoli'n gweithio'n galed i ddiwallu gofynion ariannol presennol a thrwyddi draw, mae'r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

#### **Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Wrth sgwrsio, dywedodd y plant eu bod yn mwynhau dod i'r Cylch a byddent yn hoffi dod bob dydd. Maen nhw'n mwynhau cwrdd â'u ffrindiau.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.